Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Cynrychiolaeth Sifil

# CIVMODD2 – Y Canllaw

| **Fersiwn:** | **Dyddiad cyhoeddi:** | **Dyddiad adolygu diwethaf:** | **Perchennog:** |
|---|---|---|---|
| 4 | 3 Awst 2023 | 3 Awst 2023 | ACC Cyfreithiol |

## Hanes Fersiynau

| Fersiwn: | Dyddiad: | Rheswm: |
|---|---|---|
| 4 | Awst 2023 | Newidiadau i’r Ffurflen – Cam 1, Adolygiad Prawf Modd |
| 3 | Ionawr 2021 | Newidiadau Deddfwriaeth – Diystyrion a gwaredu cap morgais. |
| 2 | Awst 2014 | Diweddariadau i'r adran Pobl Eraill |

## Cynnwys


1. Golwg Gyffredinol
2. Eich Manylion Chi a'ch Partner
3. Cyfalaf ac asedau eraill
4. Gwybodaeth ychwanegol
5. Datganiad
6. Tystiolaeth o'ch amgylchiadau sydd wedi eu datgan
7. Gwybodaeth ychwanegol
8. Crynodeb - Arweiniad Cam-wrth-Gam ar Asesiad i ymgeiswyr pasbort

## 1. Golwg Gyffredinol

### Pryd y mae'n rhaid i mi lenwi Ffurflen CIVMODD2?

Os ydych chi'n cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Gwarant neu'r Credyd Cynhwysol mae angen ichi lenwi CIVMODD2. Mae'r rhain hefyd yn cael eu galw'n fudd-daliadau pasport.

Os nad ydych chi'n cael un o fudd-daliadau'r wladwriaeth sydd wedi'u rhestru uchod, mae angen ichi lenwi CIVMODD1 os ydych chi'n byw yn y Deyrnas Unedig a'ch bod dros 18 oed.

### Rhoi gwybod inni am newid:

Os ydych chi eisoes yn cael cymorth cyfreithiol, rhaid ichi roi gwybod inni am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau ariannol:

Llenwch CIVMODD2 os ydych chi neu'ch partner yn awr yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Gwarant neu'r Credyd Cynhwysol.

Llenwch CIVMODD2 os yw eich cyfalaf wedi newid ond eich bod yn dal i gael budd-daliadau pasport

Os nad ydych chi'n cael budd-dal pasport bellach, llenwch ffurflen CIVMODD1 yn lle hynny.

### Sut ydw i’n llenwi Fflurflen CIVMODD2?

Trefnir y llyfryn hwn i'ch helpu i lenwi Ffurflen CIVMODD2. Mae'n bwysig ateb pob cwestiwn ar y ffurflen, oni bai bod y cyfarwyddiadau'n dweud wrthych y gallwch anwybyddu'r cwestiwn.

Os na fyddwch chi'n ateb pob cwestiwn perthnasol, ni allwn roi Cymorth Cyfreithiol ichi. Byddwn yn anfon y ffurflen yn ôl atoch ichi ei llenwi'n iawn. Cofiwch, ni all eich cyfreithiwr wneud dim gwaith nes y caniateir Cymorth Cyfreithiol ichi.

Peidiwch â chroesi allan, newid nag ysgrifennu 'dim yn gymwys' i unrhyw un o'r cwestiynau os gwelwch yn dda.

Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth a rowch chi inni'n gywir. Os byddwch chi'n rhoi gwybodaeth inni nad yw'n wir, neu os na fyddwch chi wedi sôn am ryw elfen o'ch

amgylchiadau ariannol, mae'n bosibl y caiff unrhyw Gymorth Cyfreithiol a roddwyd ichi ei ddiddymu h.y. ei ganslo, a bydd gofyn ichi ad-dalu holl gostau eich cyfreithiwr. Mae'n ddyletswydd arnoch i ddweud wrthym hefyd os bydd eich amgylchiadau ariannol yn newid. Os bydd eich amgylchiadau'n newid a chithau heb ddweud wrthym, mae'n bosibl y caiff unrhyw Gymorth Cyfreithiol a roddwyd ichi ei ddiddymu, h.y. ei ganslo, a bydd gofyn ichi dalu yn ôl holl gostau eich cyfreithiwr

Os rhoddir Cymorth Cyfreithiol ichi, byddwn yn holi i wneud yn siŵr nad yw'ch amgylchiadau wedi newid.

## 2. Eich Manylion Chi a'ch Partner

- Rhaid ichi lenwi'r ffurflen gan roi'ch manylion chi a manylion eich partner. Os nad oes gennych chi bartner, rhowch eich manylion chi'n unig

- Ystyr partner yw priod, partner drwy bartneriaeth sifil neu rywun y byddwch fel rheol yn byw gydag ef/hi fel cwpl. Os ydych chi'n byw ar wahân i'ch partner, er enghraifft oherwydd, salwch, carcharu neu weithio i ffwrdd (ond nid oherwydd bod y berthynas wedi chwalu) rhaid ichi gynnwys manylion eich partner..

- Os ydych chi a'ch partner wedi gwahanu oherwydd bod y berthynas wedi chwalu neu os eich partner yw'ch gwrthwynebydd yn yr achos rydych chi'n ceisio cymorth cyfreithiol ar ei gyfer, llenwch y ffurflen, gan roi eich manylion chi, ond peidiwch â rhoi manylion eich partner.

- Os ydych chi a'ch partner wedi gwahanu a'ch bod yn byw gyda rhywun arall, rhowch fanylion yr unigolyn rydych yn byw gydag ef/hi yn awr..

### Budd-daliadau pasport

- Mae angen inni wybod pa fudd-dal pasport rydych chi'n ei gael. Ticiwch y blwch perthnasol

- h.y. Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Gwarant neu'r Credyd Cynhwysol Os NAD ydych chi'n cael unrhyw un o'r budd-daliadau uchod a'ch bod yn cael budd-daliadau neu gredydau treth eraill, mae angen ichi lenwi ffurflen CIVMODD1.

- Mae angen inni gael gwybod pwy sy'n cael y budd-dal. Ticiwch y blwch perthnasol ar y ffurflen i gadarnhau ai chi, eich partner ynteu rhywun arall sy'n cael y budd-dal (h.y. pwy sy'n hawlio'r budd-dal). Os oes rhywun arall, ar wahân i chi neu'ch partner, wedi hawlio budd-daliadau, bydd angen ichi roi enw llawn yr unigolyn hwnnw a'i rif yswiriant gwladol. (Byddwch wedi rhoi'r manylion hyn ar eich cyfer chi a'ch partner, lle bo hynny'n berthnasol, yn yr
- adran flaenorol).

  Bydd angen ichi roi cyfeiriad y swyddfa leol neu'r ganolfan waith sy'n talu'r
- budd-dal.

  Os nad ydych chi'n gweithio, dywedwch beth oedd eich swydd ddiwethaf.

- Dywedwch pa bryd y cafodd y sawl sy'n hawlio'r budd-dal h.y. chi, eich partner, neu rywun arall sydd wedi'i enwi ar y ffurflen, y budd-dal pasport am y tro cyntaf.

### Pobl eraill

### Rhaid i ni wybod am y bobl sy'n byw gyda chi

- Efallai bydd angen cyfraniad gan bobl eraill a fydd hefyd yn elwa o'ch achos cyfreithiol

### Help ariannol gan drydydd parti

- Efallai eich bod yn cael help gan rywun sy'n gadael ichi ddefnyddio'i asedau am ddim e.e. car neu'n rhoi arian ichi (h.y. cyfandaliad cyfalaf). Fe allai hyn fod yn unigolyn, yn gwmni, yn fudiad gwirfoddol neu'n gronfa ymddiriedolaeth.

- Os ydych chi'n cael arian neu help gan gronfa ymddiriedolaeth, rhaid ichi anfon copi o'r weithred ymddiriedolaeth a'i roi ynghlwm wrth ffurflen CIVMODD2. Os na fydd y copi ynghlwm, byddwn yn gofyn amdano a bydd hyn yn golygu oedi wrth brosesu'ch cais am gymorth cyfreithiol. Os yw'r swm rydych chi'n debygol o'i gael eleni'n wahanol i'r swm a gawsoch chi'r llynedd, dywedwch wrthym faint a pham mae hyn wedi newid yn yr adran Gwybodaeth Ychwanegol ar dudalen 10 ffurflen CIVMODD2.

## 3. Cyfalaf ac asedau eraill

### C1 Pa fath o gyfalaf sy'n cael ei gyfrif gennym

- Mae angen arnom ni wybod am bob math o gyfalaf yr ydych chi neu'ch partner yn berchen arnynt.

- Cofiwch atodi datganiadau banc/ariannol ar gyfer pob cyfrif sydd gennych chi neu'ch partner.

### C2 Cydgyfrifon

Rhestrwch bob cyfrif sydd gennych chi a'ch partner

- Mae angen arnom ni wybod am bob math o gyfalaf yr ydych chi neu'ch partner yn berchen arnynt

- Os nad yw modd eich partner yn cael ei asesu (ee os ydych chi wedi gwahanu) byddwn yn cynnwys y cyfanswm yn y cyfrif o hyd, oni bai eich bod yn darparu tystiolaeth nad oes gennych fynediad at y cyfanswm cyfan.

## C3 Buddsoddiadau cyfnod penodol

- Tybiwn y gallwch sylweddu gwerth cyfalaf presennol y buddsoddiad. Os nad yw hyn yn wir, darparwch ddogfennau sy'n dangos telerau ac amodau'r buddsoddiad.

## C4 Eich prif gartref ac unrhyw eiddo arall rydych chi'n berchen arno

- Rhaid i ni wybod am ble rydych yn byw
- Os ydych yn berchen ar neu sydd â budd ariannol yn eich cartref bydd angen i chi ddarparu manylion llawn. Mae angen i ni wybod ei werth ar y farchnad ar hyn o bryd, y swm forgais sy'n ddyledus (gan gynnwys swm unrhyw fenthyciadau a sicrhawyd ar yr eiddo), manylion unrhyw bolisïau gwaddol sy'n gysylltiedig a pha fath o lety rydych yn byw ynddoMae'n rhaid i chi ddweud wrthym hefyd am unrhyw eiddo arall y gallech chi neu eich partner yn berchen ar neu sydd ā diddordeb ynddo.
- Os ydych chi'n berchen ar eich cartref eich hun:
  - Ni ystyrir y £100,000 cyntaf o ecwiti eich prif gartref fel cyfalaf gwario.
  - Mae ecwiti yn golygu gwerth gwerthu eich cartref llai unrhyw forgais neu fenthyciad sy'n ddyledus drwy godiad ar yr eiddo. Byddwn yn cymharu eich prisiad chi o'r eiddo â'n prisiad annibynnol ni, a gallwn gymryd y ffigur uchaf.
- Os na fyddwch yn rhoi eich cyfeiriad inni ac yn ateb yr holl gwestiynau a ofynnir ichi, byddwn yn anfon y ffurflen hon yn ôl atoch a bydd oedi wrth brosesu'ch cais am Gymorth Cyfreithiol.

## Unrhyw eiddo arall rydych chi'n berchen arno

- Os ydych yn berchen ar unrhyw eiddo arall byddwn yn ystyried unrhyw ecwiti fel cyfalaf.

## C5 Buddiannau mewn ymddiriedolaeth

- Cyfrifir buddiant mewn ymddiriedolaeth fel cyfalaf ac mae arnom angen copi o'r weithred ymddiriedolaeth i brisio'r buddiant hwnnw.

## C6 Ceir

- Cynhwyswn werth ceir fel cyfalaf mewn rhai amgylchiadau. Os gwnawn hynny yn eich achos chi, cewch wybod pan roddir gwybod i chi am ganlyniad eich asesiad.

### C7 Buddiannau mewn ymddiriedolaeth

- Cyfrifir buddiant mewn ymddiriedolaeth fel cyfalaf ac mae arnom angen copi o'r weithred ymddiriedolaeth i brisio'r buddiant hwnnw.

### C8 Mae angen inni wybod a ydych chi'n hunangyflogedig ynteu'n gyfarwyddwr cwmni

- Os cyfarwyddwr cwmni ydych chi, bydd angen inni gael Ffurflen CIVMODD1C a chyfrifon pob cwmni rydych chi'n gyfarwyddwr arno.
- Os ydych chi'n hunangyflogedig neu'n rhan o bartneriaeth, bydd angen ichi lenwi Ffurflen CIVMODD2A. Mae'r ffurflenni hyn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ac fe ddylech ddarllen y rhain yn ofalus oherwydd eu bod yn dweud wrthych pa ddogfennau/ffurflenni eraill y mae angen eu hanfon gyda'ch cais

### Ynglŷn â'ch achos – am beth mae'r anghydfod?

### C9 Mae angen inni wybod beth yw'r anghydfod sydd rhyngoch chi a'ch gwrthwynebydd

Ni fyddwn yn cyfrif gwerth unrhyw asedau sy'n destun anghydfod yn yr achos os nad yw eich budd yn yr asedau hyn dros £100,000, felly, os yw eich gwrthwynebydd neu os ydych chi mewn anghydfod ynglŷn â phwy biau rhywbeth penodol, mae angen inni gael gwybod am hynny.

### 4. D1 Gwybodaeth ychwanegol

- Os ydych chi'n gwybod am ddigwyddiad sy'n mynd i ddigwydd yn y 12 mis nesaf a fydd yn effeithio ar eich incwm neu'ch cyfalaf, dylech ddweud wrthym, er mwyn inni adolygu eich amgylchiadau bryd hynny os bydd angen.
- Dylech ddefnyddio'r adran hon i ddweud wrthym am unrhyw beth yn eich amgylchiadau nad yw wedi cael sylw mewn unrhyw fan arall ar Ffurflen CIVMODD2

## 5. Datganiad

### Datganiad a chaniatâd y sawl sy'n cael y budd-dal

- Os NAD y sawl sy'n cael y budd-dal a nodir ar ddechrau'r ffurflen yw'r sawl sy'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol, h.y. os eich partner neu rywun arall sy'n cael y budd-dal yn hytrach na chi'ch hun, rhaid i'r unigolyn hwnnw lofnodi'r datganiad hwn.
- Os ydych chi'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol ac mai chi sy'n cael y budd-dal, ni fydd ond angen ichi lofnodi 'Datganiad a chaniatâd y ceisydd'.

**Datganiad a chaniatâd partner**

- Os oes gennych chi bartner sydd wedi rhoi ei f/manylion ar y ffurflen hon ac NAD yw wedi llofnodi'r datganiad uchod (h.y. nid ef/hi sy'n cael y budd-dal), yna rhaid iddo/iddi lofnodi'r datganiad hwn:.

**Datganiad a chaniatâd y ceisydd**

- Rhaid ichi lofnodi a dyddio'r datganiad neu fe wrthodir y ffurflen..
- Peidiwch â cheisio newid geiriad y datganiad neu fe wrthodir y ffurflen.

## 6. E1 Mae angen i chi ddarparu tystiolaeth sy'n cefnogi'r hyn yr ydych wedi ei ddweud wrthym

- Mae angen ichi roi tystiolaeth i gefnogi'r hyn rydych wedi'i ddweud wrthym.
- Ar dudalen 17 - o'r ffurflen ceir rhestr wirio i'ch helpu i adnabod pa ddogfennau y mae angen i chi eu cynnwys gyda'ch cais
- Ceir hefyd nodiadau mewn llythrennau bras drwy'r ffurflen pan fo cwestiwn yn arwain at angen am dystiolaeth
- Os na rowch chi'r dystiolaeth inni, efallai y byddwn yn gwrthod eich cais yn llwyr

## 7. Gwybodaeth ychwanegol

- Rhaid i chi ddychwelyd y ffurflen CIVMODD2 at eich cyfreithwyr. Byddant yn ei hanfon atom gyda'ch cais. (Gwiriwch eich bod wedi atodi pob dogfen arall y gofynnom amdanynt at ffurflen CIVMODD2).
- Rhaid anfon atom y ffurflen a'r holl ddogfennau eraill mae eu hangen arnom cyn pen dau fis o'r dyddiad y llofnodir y ffurflen. Fel arall, byddwn yn gwrthod y cais.
- Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych a ydym yn barod i roi Cymorth Cyfreithiol ichi, i egluro sut mae'r asesiad wedi'i wneud ac i ddweud a fydd yn rhaid ichi dalu cyfraniad at gost eich achos.

## 8. Crynodeb - Arweiniad Cam-wrth-Gam ar Asesiad i ymgeiswyr pasbort

### Cam 1

Os oes gennych bartner nad ydych wedi gwahanu oddi wrtho ac nad yw'n wrthwynebydd i chi yn yr achos (diddordeb gwrthwynebol), byddwn yn agregu'ch moddion h.y. yn cynnwys adnoddau'r ddau ohonoch yn yr asesiad.

**Cam 2**

Os ydych chi a'ch partner yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar Incwm, Gwarant Credyd neu'r Credyd Cynhwysol byddwch yn bodloni'r prawf incwm yn awtomatig, ond bydd angen asesu'ch cyfalaf o hyd. Os nad ydych yn derbyn unrhyw un o'r 'budd-daliadau pasbortio', peidiwch â chyflwyno ffurflen CIVMODD2, ond yn hytrach ffurflen CIVMODD1.

**Cam 3**

Byddwn yn cyfrifo'ch cyfalaf gwario (gan gynnwys unrhyw ecwiti yn eich cartref sy'n uwch na'r terfyn £100,000). Bydd eich budd neu'ch cyfran mewn unrhyw asedau sy'n rhan o'r anghydfod yn cael eu hanwybyddu, hyd at fwyafswm drwyddo draw o £100,000 (Gweler nodiadau C1 – C8). Os bydd yr asesiad yn dangos bod eich cyfalaf gwario'n uwch na'r terfyn uchaf, yna, fe wrthodir eich cais.

**Cam 4**

Fe all fod gofyn ichi dalu cyfraniadau o'ch cyfalaf. Os bydd gofyn ichi dalu cyfraniadau o'ch cyfalaf, bydd yn rhaid gwneud ar unwaith ar ffurf cyfandaliad. Os bydd disgwyl ichi wneud cyfraniad, cynigir cymorth cyfreithiol i chi gan ddweud faint o swm y bydd gofyn ichi ei gyfrannu. Gellir gweld manylion terfynau presennol incwm a chyfalaf ar ein gwefan:
https://www.gov.uk/guidance/civil-legal-aid-means-testing

# Diwedd y ddogfen